

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 23 Gorffennaf 2019

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: POLISI**

**Teitl: Rôl y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol a Gwasanaethau i Bobl sy'n Agored i Niwed**

**Dyddiad Adolygu: Ionawr 2022**

**I'w weithredu gan:  
Prif Weithredwyr, Yr Holl Fyrddau Iechyd**

**Angen gweithredu erbyn:  
Ar unwaith fel y nodir ar dudalen 3**

**Anfonir gan: Alexander Slade, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gofal Sylfaenol  
Colette Bridgman, Y Prif Swyddog Deintyddol**

**Enw(au) Cyswilt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:**

**Colette Bridgman, Y Prif Swyddog Deintyddol  
[Colette.bridgman@llyw.cymru](mailto:Colette.bridgman@llyw.cymru) (Rhif ffôn: 0300 0255543)**

**Dogfen(nau) amgaeedig: Canllawiau a dogfennau atodiad ar y mater uchod**

## **Rôl y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol a Gwasanaethau i Bobl sy'n Agored i Niwed**

### **Crynodeb**

Mae'r cylchlythyr hwn yn disodli WHC(2016)005 a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2016. Mae'n rhoi canllawiau wedi'u diweddarau ar ddarparu gwasanaethau deintyddol i bobl sy'n agored i niwed a rôl y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol (GDC) yng Nghymru nawr ac yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y GDC yn chwarae rôl flaenllaw wrth ddarparu gofal i bobl sy'n agored i niwed a gwella iechyd y geg ymhlith grwpiau â blaenoriaeth.

Mae'r cylchlythyr hwn hefyd yn cynnwys canllawiau wedi'u diweddarau ar sefyllfaoedd lle y dylai'r GDC godi tâl fel arfer am driniaeth ddeintyddol.

### **Camau i'w cymryd**

Gofynnir i Brif Weithredwyr byrddau iechyd sicrhau bod trefniadau wedi'u gwneud i roi'r canllawiau hyn ar waith. Wrth wneud hynny bydd angen iddynt nodi'r holl wasanaethau deintyddol sydd eu hangen er mwyn diwallu anghenion deintyddol ac anghenion o ran iechyd y geg yn eu hardal a chyflawni'r ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau deintyddol i ddiwallu pob angen rhesymol.

Dylai byrddau iechyd ddefnyddio eu strwythurau cyngori proffesiynol i adolygu a llywio'r modd y caiff gofal deintyddol ei ddarparu gan bob gwasanaeth deintyddol lleol gan gynnwys y GDC, gwasanaethau gofal sylfaenol a ddarperir gan Wasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaethau Deintyddol Personol a Gwasanaethau Deintyddol mewn Ysbytai, a sut mae'r rhain yn ymwneud â ffiniau awdurdodau lleol a chlystyrau gofal sylfaenol. Bydd arbenigwyr a meddygon ymgynghorol ym maes Iechyd Cyhoeddus Deintyddol yn rhoi cymorth manwl ac arbenigol wrth asesu anghenion ac, mewn cydweithrediad ag eraill, gyngor ar ddatblygu gwasanaethau.

Mae'n rhaid i waith cynllunio gwasanaethau hefyd ystyried y rôl bwysig y mae'r GDC yn ei chwarae wrth gyflawni ymateb Gwasanaethau Deintyddol ac Iechyd y Geg i *Cymru Iachach* yn ogystal â rhaglenni iechyd y geg ar gyfer y boblogaeth, gan gynnwys Cynllun Gwên (D2S) a'r rhaglen Gwên am Byth i wella iechyd y geg ymhlith pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae gan y GDC rôl hanfodol i'w chwarae wrth ddarparu addysg a hyfforddiant i fyfyrwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol cofrestredig – yn enwedig nyrsys ac ymwelwyr iechyd ac yn y rhaglen gwella gwasanaethau 1000 o Fywydau i wella gofal y geg ar gyfer oedolion a phlant mewn ysbytai. Gallai'r GDC hefyd ei gwneud yn haws i bobl gael gafael ar wasanaethau deintyddol arbenigol a ddarperir mewn lleoliadau cymunedol a gwasanaethau gofal deintyddol cyffredinol a ddarperir drwy drefniadau'r GDC/Gwasanaethau Deintyddol Personol.

Mae'r rhan fwyaf o dimau'r GDC eisoes yn ymgorffori egwyddorion gofal darbodus, yn enwedig wrth ddefnyddio holl aelodau'r tîm deintyddol i'w llawn botensial drwy weithio mewn tîm a galluogi pob aelod o'r tîm deintyddol i weithio hyd at gwmpas llawn eu hymarfer yn unol â'r hyn a nodir ar gofrestr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol; e.e. mae nyrsys deintyddol hyfforddedig yn rhoi farnais fflworid ar ddannedd fel rhan o D2S ac mewn lleoliadau clinigol. Mae'r defnydd o fynediad uniongyrchol gan therapyddion a hylenwyr wedi'i hyrwyddo gryn dipyn gan y GDC yng Nghymru ac rydym yn disgwyl i hyn fod yn rhan o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau. Hefyd, rydym yn disgwyl gofal o'r safon uchaf yn y GDC gan staff sy'n deall ac yn defnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf. Drwy eu harweinyddiaeth a'u rheolaeth, mae Cyfarwyddwyr Clinigol y GDC yn gyfrifol am elfennau o gynllunio a datblygu'r gweithlu; sicrhau ansawdd a diogelwch; hyrwyddo

cydweithio ar draws y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach; a galluogi a hyrwyddo gofal o safon uchel yn y GDC.

Disgwylir i fyrddau iechyd barhau i gydweithio â byrddau iechyd eraill a chwarae rhan lawn mewn Rhwydweithiau Clinigol a Reolir er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu'n ddiogel ac yn amserol. Mae Rhwydweithiau Clinigol a Reolir effeithiol yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau ac rydym am weld canlyniadau cyson a gwasanaethau yn gwella ym mhob bwrdd iechyd. Enghraifft dda yw'r Rhwydwaith Clinigol a Reolir ar gyfer Deintyddiaeth Gofal Arbennig yr ystyrir ei fod yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau yn amserol i oedolion sy'n agored i niwed a chael mynediad amserol at y gwasanaethau hynny. Hefyd, rydym yn disgwyl i'r GDC gael ei gynrychioli ar y Fforymau Cynghori Strategol ar gyfer llonyddu a phediatreg.

Mae GDC effeithiol yn gofyn am fuddsoddiad parhaus, neu fwy o fuddsoddiad pan fydd gwasanaethau ychwanegol yn cael eu darparu, e.e. llawdriniaeth ar y geg a llonyddu mewnwythiennol, pan fydd y rhain yn cefnogi darpariaeth briodol mewn lleoliadau gofal sylfaenol yn lle gofal eilaidd. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn gallu cael yr holl ofal deintyddol sydd ei angen arnynt mewn modd amserol. Mae mynediad i ddeintyddiaeth gofal arbennig a deintyddiaeth bediatrig arbenigol a darparu gwasanaethau llonyddu yn hanfodol i ddarparu gwasanaethau deintyddol o safon uchel yn llwyddiannus.

### **Darparu Gwasanaethau Deintyddol i Bobl sy'n Agored i Niwed**

Gellir diffinio pobl sy'n agored i niwed fel y rhai y dangoswyd eu bod yn wynebu anghydraddoldeb o ran eu profiad o glefyd a/neu fynediad at ofal. Mae gan unigolion anghenion a galluoedd gwahanol ond bydd gan lawer o bobl anghenion gofal arbennig na fydd gwasanaethau deintyddol cyffredinol yn gallu eu diwallu o bosibl. Gall iechyd y geg gwell wella iechyd cyffredinol pobl sy'n agored i niwed.

Mae pobl sy'n agored i niwed yn aml yn wynebu mwy o risg o gael clefydau deintyddol a chlefydau'r geg ac maent yn debygol o gynnwys y rhai na allant wneud y canlynol:

- cydweithredu â gofal deintyddol arferol;
- deall yr angen am ofal deintyddol a lefel dda o hylendid y geg;
- cynnal lefel dda o hylendid y geg heb gymorth;
- cael gafael ar wasanaethau deintyddol yn hawdd (e.e. cleifion y mae angen defnyddio teclyn codi i'w trosglwyddo i gadair ddeintyddol).

Gallant hefyd gynnwys:

- pobl ag anghenion iechyd cymhleth a all gynnwys anghenion meddygol, anghenion corfforol neu anghenion iechyd meddwl;
- pobl dan anfantais gymdeithasol, gan gynnwys ceiswyr lloches, pobl ddigartref a phobl ag anhwylderau camddefnyddio sylweddau;
- plant sy'n derbyn gofal neu blant â chlefyd deintyddol sydd wedi'u heffeithio'n ddifrifol a/neu nad oes neb yn mynd â nhw i gael gofal deintyddol;
- pobl hŷn fregus sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rhai sy'n byw â dementia a phobl sy'n byw mewn cartrefi gofal nad ydynt yn gallu cael gafael ar ofal gan y Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol.

Mae gan y GDC brofiad ac mae wedi datblygu sgiliau, yn benodol ym meysydd deintyddiaeth gofal arbennig a deintyddiaeth bediatrig, i chwarae rôl arweiniol wrth ofalu am y bobl sydd fwyaf

agored i niwed, gan weithio mewn partneriaeth â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol/Gwasanaethau Deintyddol Personol/Gwasanaethau Deintyddol mewn Ysbytai, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac amrywiaeth eang o asiantaethau eraill. Mae meddygon ymgynghorol ac arbenigwyr sydd wedi cael hyfforddiant uwch ac sy'n meddu ar sgiliau estynedig wedi cael eu penodi mewn rhai rhannau o Gymru. Gallant ddarparu gofal arbenigol iawn a helpu eraill i ddarparu gofal o'r fath mewn lleoliadau cymunedol a hoffai Llywodraeth Cymru weld byrddau iechyd yn cynnal y momentwm wrth gynllunio'r ddarpariaeth o wasanaethau i gynnwys meddygon ymgynghorol ac arbenigwyr ym maes deintyddiaeth gofal arbennig a deintyddiaeth bediatrig. Lle dangosir bod angen, gall arbenigwyr/meddygon ymgynghorol mewn disgyblaethau deintyddol eraill gael eu lleoli yn y GDC i hybu cydweithio agos â gofal eilaidd, e.e. llawdriniaeth ar y geg yn yr haen ganolradd. Rydym yn disgwyl i'r meddygon ymgynghorol a'r arbenigwyr hyn gydweithio â chydweithwyr mewn timau gwasanaethau deintyddol cyffredinol a gwasanaethau deintyddol personol i wella ansawdd y gofal a ddarperir yn y lleoliadau hynny a chynyddu mynediad at ofal mewn lleoliadau gofal sylfaenol. Gellir hwyluso'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau drwy gydweithio â sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am les pobl sy'n agored i niwed gan gynnwys rhannau eraill o'r GIG, y trydydd sector, y sector addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

Dylai deintyddion a thimau deintyddol a all ddangos sgiliau a phrofiad priodol (profiad arbenigol pan fo'i angen) ac sy'n gweithio mewn amgylcheddau hygyrch, priodol a diogel ofalu am bobl sy'n agored i niwed. Efallai y bydd eu gofal yn gofyn am adnoddau/cymorth clinigol ac adnoddau/cymorth rheoli ychwanegol a dylai byrddau iechyd fod yn sensitif i'r amser a'r hyfforddiant ychwanegol sydd eu hangen er mwyn rhoi gofal diogel ac effeithiol i bobl ag anghenion gofal arbennig.

### **Gofal a Rennir a Llwybrau Gofal**

Ymarfer deintyddol cyffredinol yw conglfaen gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol a dyma'r dewis ddarparwr ar gyfer y mwyafrif helaeth o bobl yng Nghymru. Mae'r Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol hefyd yn darparu gofal i lawer o bobl sy'n agored i niwed, ond mae angen sgiliau ac arbenigedd ychwanegol y GDC er mwyn ofalu am rai unigolion sy'n agored i niwed. Gall llwybrau gofal i bobl sy'n agored i niwed gynnwys amrywiaeth eang o asiantaethau eraill gan gynnwys y trydydd sector, timau gofal iechyd arbenigol, ymwelwyr iechyd Dechrau'n Deg a phersonél cartrefi gofal.

Efallai mai'r GDC yw'r unig ddarparwr gofal i unigolyn penodol, neu gall y gwasanaeth ddarparu gofal a rennir gydag ymarferwyr deintyddol cyffredinol a/neu wasanaethau deintyddol mewn ysbytai. Dylid hwyluso gofal a rennir effeithiol drwy gyflwyno llwybrau gofal ac atgyfeirio clir fel bod cleifion yn cael gofal amserol gan y gwasanaeth mwyaf priodol. Mae gofal a rennir yn ei gwneud yn ofynnol i'r GDC atgyfeirio cleifion yn briodol yn ôl at y gwasanaeth deintyddol cyffredinol ar ôl cwblhau'r gofal sydd ei angen yn y GDC.

Rydym yn disgwyl i fyrddau iechyd gyflwyno polisiâu lleol lle mae'r GDC yn derbyn cleifion i ddarparu gofal iddynt drwy atgyfeiriad yn unig, gan gynnwys atgyfeiriad gan ymarferwyr deintyddol cyffredinol a gwasanaethau deintyddol mewn ysbytai (drwy system e-atgyfeirio) a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill. Bydd hyn yn helpu i sicrhau y gall y GDC ganolbwyntio ei adnoddau ar ofalu am y bobl sydd fwyaf agored i niwed. Bydd mynediad digonol i wasanaethau deintyddol cyffredinol yn allweddol i gyflawni'r polisi hwn. Mae hunanatgyfeiriadau gan oedolion yn dderbyniol ond mae'n rhaid i'r unigolion hyn gael eu hasesu i sicrhau eu bod yn bodloni'r meini prawf i gael eu derbyn am ofal yn y GDC. Bydd y GDC yn gallu darparu gofal heb atgyfeiriad i blant sydd mewn poen a/neu sydd â chlefyd deintyddol difrifol ac

nad oes ganddynt ddeintydd. Hefyd, bydd y GDC yn gallu darparu gwasanaeth ar y cyd â rhaglen Plant Iach Cymru i blant cyn oed ysgol sydd dan anfantais ddaearyddol neu gymdeithasol.

Mae gan y GDC yng Nghymru hanes o ddatblygu dogfennau a systemau "unwaith i Gymru" ac rydym yn disgwyl i'r GDC gydweithio i ddatblygu a chyflwyno un system atgyfeirio i'w defnyddio gan bersonél nad ydynt yn rhai deintyddol ac un system trosglwyddo gofal i sicrhau bod cleifion yn cael eu trosglwyddo'n drefnus o'r GDC i wasanaethau deintyddol cyffredinol. Bydd y system e-atgyfeirio genedlaethol fel arfer yn cael ei defnyddio ar gyfer atgyfeiriadau rhwng deintyddion. Bydd mynediad digonol i wasanaethau deintyddol cyffredinol a chynghor gan y Rhwydweithiau Clinigol a Reolir Lleol ar gyfer deintyddiaeth gofal arbennig, a chan y Fforwm Cynghori Strategol cenedlaethol ar gyfer deintyddiaeth bediatrig, yn allweddol i gyflawni'r polisi hwn.

## **Gwasanaethau yn y Cartref**

Dylai gofal yn y cartref adlewyrchu angen mewn perthynas â'r risgiau a'r buddiannau i gleifion. Bydd gweithredu meini prawf cymhwysedd cadarn yn ei gwneud yn bosibl i wasanaeth cydlynus yn y cartref gael ei ddarparu. Ystyrir bod y GDC yn allweddol i gydgyssylltu gwasanaethau lleol am ei fod yn cynnig un pwynt mynediad i'r bwrdd iechyd, fodd bynnag, disgwyliwn i ofal gael ei ddarparu fel trefniant ar draws gwasanaethau gyda chleifion yn cael eu hatgyfeirio at y darparwr mwyaf priodol, boed yn Wasanaeth Deintyddol Cyffredinol, yn Wasanaeth Deintyddol Personol, yn Wasanaeth Deintyddol Cymunedol neu'n Wasanaeth Deintyddol mewn Ysbyty.

## **Gwasanaethau i bobl y disgwylid iddynt ddefnyddio gwasanaethau deintyddol cyffredinol fel arfer**

Ble bynnag y bo modd, dylai ymarferwyr deintyddol cyffredinol a'u timau ddarparu gofal i'r teulu cyfan, gan ddatblygu patrwm o fynychu apwyntiadau deintyddol ymhlith plant a all barhau pan fyddant yn oedolion. Mae'n amlwg, fodd bynnag, fod rhai cleifion, yn arbennig plant, yn parhau i ddefnyddio (neu'n dewis defnyddio) y GDC pan ddylai gwasanaethau deintyddol cyffredinol fod yn gofalu amdanynt.

Dylid trosglwyddo plant sy'n defnyddio'r GDC i'r gwasanaeth deintyddol cyffredinol, oni bai bod ganddynt anghenion ychwanegol sydd ond yn gallu cael eu diwallu gan y GDC neu fod tystiolaeth bod eu rhieni/gofalwyr yn annhebygol iawn o fynd â'u plentyn/plant at yr ymarferydd deintyddol cyffredinol. Dylai'r GDC ddatblygu protocolau lleol ar gyfer mynd ati i asesu plant a'u trosglwyddo i'r gwasanaeth deintyddol cyffredinol gan sicrhau parhad gofal. Mae protocol lleol yn debygol o gynnwys y canlynol:

- bod plant wedi cael cynghor a thriniaeth ataliol o ran iechyd y geg, a'u bod wedi ymateb yn dda i hynny;
- dim pydredd gweithredol yn y dannedd;
- y gallu i dderbyn gofal deintyddol a chydweithio â gofal deintyddol;
- patrwm sefydledig o fynychu apwyntiadau deintyddol.

Mae gwasanaethau deintyddol cyffredinol yn ganolog i ofal deintyddol ond, o dan amgylchiadau eithriadol, efallai y bydd angen i'r GDC roi gofal a thriniaeth ddeintyddol i bobl y disgwylid iddynt ddefnyddio gwasanaethau deintyddol cyffredinol fel arfer, e.e.:

- plant a phobl ifanc yn eu harddegau sydd â chlefyd deintyddol difrifol ac sydd wedi cael anhawster i gael triniaeth yn y gwasanaeth deintyddol cyffredinol, neu lle mae tystiolaeth na fyddai plant fel arall yn cael triniaeth yn y gwasanaeth deintyddol cyffredinol;

- o dan drefniadau'r GDC/gwasanaeth deintyddol personol mewn ardaloedd lle nad oes digon o fynediad i wasanaethau deintyddol cyffredinol;
- gofal brys ar gyfer yr oedolion hynny nad ydynt yn agored i niwed ond sy'n ei chael hi'n anodd cael gafael ar wasanaeth deintyddol cyffredinol am y tro;
- pobl ifanc y mae arnynt angen gwasanaethau gofal arbennig ac sy'n pontio o wasanaethau gofal iechyd plant i wasanaethau oedolion.

Nid yw Llywodraeth Cymru am i hyn amharu ar brif rôl y GDC i ofalu am bobl sy'n agored i niwed na defnyddio adnoddau'r GDC at y diben hwn.

## **Ansawdd a Diogelwch**

Disgwylir i'r GDC gydymffurfio â safonau a chanllawiau ansawdd a diogelwch:

- gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer unigolion cofrestredig;
- polisiau a chanllawiau Llywodraeth Cymru ar ansawdd a diogelwch (e.e. Safonau Iechyd a Gofal);
- canllawiau NICE, gan gynnwys y rhai ar gyfnodau adalw;
- system ACORN i gefnogi cyfathrebu effeithiol â chleifion a nodi/cofnodi risgiau ac anghenion;
- polisiau a phrosesau byrddau iechyd ar gyfer ansawdd a diogelwch;
- defnyddio offer gwella ansawdd Addysg a Gwella Iechyd Cymru sy'n briodol i'r GDC.

Gan adeiladu ar arfer da yn y gorffennol, rydym yn disgwyl i'r GDC barhau i ymsefydlu a defnyddio methodolegau gwella cydnabyddedig, gan gynnwys archwilio. Dylai byrddau iechyd annog personél y GDC i gael hyfforddiant *Gwella Ansawdd gyda'n Gilydd* a chydabod y bydd hyn yn gofyn am gymorth TG priodol. Rydym am weld dysgu ar y cyd ar draws gwasanaethau deintyddol ac rydym am i'r GDC gynnwys ei brosiectau lefel Arian ar blatfformau dysgu sy'n cael eu hyrwyddo gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

## **Y Rôl Hyfforddi a Datblygu**

Mae timau'r GDC yn chwarae rôl hanfodol wrth ddarparu hyfforddiant i ddeintyddion (israddedig ac ôl-raddedig) ac i rai sy'n dilyn rhaglenni hyfforddi arbenigol. Mae enghreifftiau yn cynnwys addysgu allgymorth i fyfyrwyr deintyddol yn eu blwyddyn olaf, Hyfforddiant Deintyddol Sylfaenol, Hyfforddeion Craidd Deintyddol, a hyfforddiant arbenigol ôl-raddedig ym maes llonyddu, deintyddiaeth gofal arbennig a deintyddiaeth bediatrig. Mae angen i hyfforddiant arbenigol gael ei oruchwylio gan feddyg ymgynghorol neu arbenigwr (mewn rhai disgyblaethau mae goruchwyliaeth yn orfodol). Mae hyn yn gofyn am gydweithio agos ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru a darparwyr hyfforddiant eraill ac ni ddylai effeithio ar eu gallu i ddiwallu anghenion pobl sy'n agored i niwed.

Mae hyfforddiant hefyd yn cael ei ddarparu i Weithwyr Gofal Deintyddol Proffesiynol gan y GDC mewn rhai rhannau o Gymru ac mae'n chwarae rhan bwysig yn y broses o ddatblygu'r grŵp hwn.

Yn aml gelwir ar aelodau timau'r GDC i ddefnyddio eu harbenigedd i gefnogi grwpiau Cymru gyfan, y trydydd sector a sefydliadau arbenigol. At hynny, maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr at y gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn fwy cyffredinol yng Nghymru, e.e. drwy eu gwaith wrth hyfforddi myfyrwyr nyrsio/nyrsys cofrestredig ac ymwelwyr iechyd, a hefyd drwy hyfforddiant i wella gofal y geg ar gyfer oedolion sy'n agored i

niwed a phlant mewn ysbytai a'r rhaglen Gwên am Byth mewn cartrefi gofal, ac rydym yn disgwyl i hyn barhau. Drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r GDC, mae grŵp Deoniaid Prifysgolion ar Nyrsio a Bydwreigiaeth Cymru gyfan wedi integreiddio iechyd deintyddol/iechyd y geg i'w cwricwla ac mae'r GDC mewn sefyllfa dda i barhau i ddarparu neu gefnogi hyfforddiant ar gyfer myfyrwyr nyrsio.

## **Addysg Iechyd y Geg a Hybu Iechyd y Geg ar gyfer cleifion unigol ac Iechyd y Cyhoedd.**

Disgwylir i'r GDC ddefnyddio'r sail dystiolaeth ar gyfer gofal cleifion unigol fel y disgrifir yn "[\*Delivering Better Oral Health: an evidence-based toolkit for prevention \(Third edition\)\*](#)". Yn benodol, rydym yn disgwyl i ddefnyddwyr gwasanaethau'r GDC gael yr holl gymorth i atal pydredd dannedd a chlefydau eraill y geg gan gynnwys nodi ffactorau risg, cyfarwyddiadau priodol ynghylch iechyd y geg, cyngor ar ddeiet a defnyddio farnais fflworid a selwyr tyllau fel y bo'n briodol. Mae'n rhaid i dimau'r GDC hefyd ddilyn y canllawiau sy'n ymwneud â maeth, ysmegu, yfed alcohol ac annog grwpiau cymwys i gael y brechiad Feirws Papiloma Dynol. Mae gan holl staff y GDC rôl i'w chwarae o ran helpu i sicrhau bod "pob cyswllt yn cyfri" a dylent ddefnyddio technegau cyfweld ysgogiadol.

Mae'r GDC wedi arwain y gwaith o gyflawni D2S ers 2008. Mae cyfarwyddwyr clinigol y GDC yn atebol am gyflawni'r rhaglen a'r defnydd a fwriedir ar gyfer adnoddau a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru. D2S yw rhaglen wella genedlaethol Cymru ar iechyd y geg i blant sydd wedi'i thargedu at y cyfnod cyn ysgol, ysgolion meithrin ac ysgolion cynradd yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn gymdeithasol fel y nodir yn WHC(2017)023 – Ailbennu ffocws Cynllun Gwên, y rhaglen i wella iechyd y geg ymhlith plant. Mae timau D2S yn rhan annatod o'r GDC ac rydym yn disgwyl iddynt gydweithio'n agosach fyth er mwyn sicrhau integreiddio llawn. Disgwylir i dimau'r GDC ddefnyddio'r gweithdrefnau ac egwyddorion seiliedig ar dystiolaeth sydd wrth wraidd D2S.

Mae timau'r GDC wedi datblygu arbenigedd mewn darparu rhaglenni addysg a hybu iechyd y geg, gan gynnwys y rheiny a gyllidir gan Lywodraeth Cymru. Mewn rhai byrddau iechyd, mae gwahanol dimau ac unigolion yn darparu rhaglenni penodol ynghylch addysg a hybu iechyd y geg, ond mewn byrddau iechyd eraill mae'r timau addysg a hybu iechyd y geg wedi'u hintegreiddio. Mae'r dull gweithredu integredig hwn yn galluogi'r GDC i ddod â màs critigol o bobl ynghyd sydd ag arbenigedd mewn addysg a hybu iechyd y geg ac sy'n gallu darparu mwy nag un rhaglen. Mae hyn yn cynnig amrywiaeth, yn ogystal â'r gallu i gyflenwi pan fydd staff yn absennol neu'n gadael y bwrdd iechyd. Hoffem i'r byrddau iechyd hynny nad oes ganddynt dimau GDC integredig asesu a allai'r dull gweithredu hwn fod o fudd yn lleol. Hefyd, efallai y byddant am ystyried cydweithio'n agosach â thimau iechyd y cyhoedd yn y byrddau iechyd a'r gwasanaethau gofal sylfaenol ehangach.

Mae'n rhaid i unrhyw weithgaredd hybu iechyd y cyhoedd:

- gael nodau ac amcanion clir;
- cael ei dargedu'n briodol;
- bod yn seiliedig ar dystiolaeth;
- cael ei werthuso'n drwyadl.

Dengys y sail dystiolaeth na fydd addysg iechyd y geg yn y gymuned ar ei phen ei hun yn gostwng lefelau clefydau deintyddol. Fodd bynnag, gall godi ymwybyddiaeth o faterion pwysig megis canser y geg.

Dylai byrddau iechyd sicrhau bod gweithgarwch hybu iechyd y geg wedi'i gysylltu â gweithgarwch hybu iechyd arall yn eu hardal er mwyn sicrhau bod dull gweithredu cyson a chyfannol yn cael ei fabwysiadu. Bydd cydgysylltu rhwng y GIG ac awdurdodau lleol yn helpu i sicrhau y caiff mentrau o'r fath yr effaith fwyaf posibl.

## **Arolygon Epidemiolegol Deintyddol**

Mae arolygon cenedlaethol a lleol rheolaidd o iechyd y geg ymhlith plant ac oedolion wedi rhoi sail gadarn i Gymru ar gyfer cynllunio gwasanaethau a'r gweithlu. Maent yn cyfrannu at asesiadau o anghenion iechyd y geg y mae'n rhaid i fyrddau iechyd eu cynnal er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau deintyddol yn genedlaethol ac yn lleol a chefnogi gwaith clystyrau gofal sylfaenol.

Caiff y gwaith o asesu pob grŵp oedran ei ategu gan arolygon epidemiolegol deintyddol a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

Fel rhan o'i swyddogaeth iechyd y cyhoedd mae'r GDC wedi datblygu arbenigedd yn y maes hwn. Rydym yn ystyried bod cadw a datblygu gallu ac adnoddau i wneud gwaith arolygu deintyddol yn flaenoriaeth ac rydym yn disgwyl i'r GDC ddefnyddio data lleol i helpu o ran cynllunio gwasanaethau.

## **Sgrinio**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i'r GDC ar sgrinio deintyddol mewn ysgolion: <http://llyw.cymru/iechyd-a-gofal-cymdeithasol>

Mae'r canllawiau hyn yn nodi na fydd y GDC yn cynnal sgrinio arferol mewn ysgolion. Mae hefyd yn nodi:

Gall y GDC ddarparu asesiadau risg clinigol o iechyd y geg i grwpiau sy'n agored i niwed, gan gynnwys pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal i bobl hŷn neu bobl ag anabledd dysgu. Rydym yn disgwyl i'r GDC ddiffinio amcanion y gweithgarwch hwn yn glir a'i werthuso er mwyn sicrhau ei fod yn ffordd effeithlon o nodi unigolion y mae angen gofal arnynt a'u cyfeirio at wasanaethau priodol.

## **Orthodonteg**

Dim ond i blant a phobl ifanc sy'n bodloni'r meini prawf canlynol y dylid rhoi triniaeth orthodontig:

- mae ganddynt lefel gyson dda o hylendid y geg;
- nid oes ganddynt bydredd gweithredol ac mae ganddynt ffactorau risg isel ar gyfer pydredd;
- gallant dderbyn gofal deintyddol a chydweithio ag ef;
- maent yn barod i gael triniaeth orthodontig;
- maent yn deall yr angen i fynd i bob apwyntiad deintyddol;
- gallant fynd i'r apwyntiadau angenrheidiol.

Mae'n annhebygol y bydd angen gofal deintyddol arferol yn y GDC ar y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc sy'n bodloni'r meini prawf hyn. Fel rheol, rydym yn disgwyl i'r GDC atgyfeirio ei gleifion y mae angen triniaeth orthodontig arnynt at wasanaethau deintyddol cyffredinol arbenigol, gwasanaethau deintyddol personol arbenigol neu wasanaethau deintyddol arbenigol mewn



ysbytai gan sicrhau bod adnoddau'r GDC yn cael eu defnyddio i ddarparu gofal i bobl sy'n agored i niwed.

Gall fod angen barn orthodontig cyn atgyfeirio am anesthetig cyffredinol deintyddol a hefyd gall fod angen barn orthodontig ar ddeintyddion y GDC mewn perthynas â phlant sydd ag anableddau, ac efallai na fydd hynny'n arwain at driniaeth orthodontig weithredol o reidrydd ond gall arwain at dynnu dannedd a gynlluniwyd i leihau gorlenwi, ac ati. Yn aml, mae gan y plant hyn broblemau o ran bwloch rhwng y dannedd blaen wrth gnoi/problemau ysgerbydol/problemau achludiad.

Lle mae mynediad at ofal orthodontig yn gyfyngedig iawn, gall y byrddau iechyd ystyried darparu gofal orthodontig drwy'r GDC o dan drefniadau gwasanaethau deintyddol cyffredinol/gwasanaethau deintyddol personol. Mae'n rhaid i unrhyw blant sy'n cael gofal orthodontig yn y GDC fodloni'r un meini prawf IOTN fel y'u cymhwysir mewn Rheoliadau a chanllawiau ar gyfer gofal orthodontig a ariennir gan y GIG yn y gwasanaeth deintyddol cyffredinol/gwasanaeth deintyddol personol a chael y gofal hwnnw gan glinigwyr sydd ar restr arbenigwyr y Cyngor Deintyddol Cyffredinol neu sydd wedi'u hachredu'n Ddeintydd â Diddordeb Arbennig/Deintydd â Sgiliau Uwch yn y ddisgyblaeth hon.

### **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, a Chasglu Data**

Mae'n rhaid i ofal cleifion effeithlon, prosesau darparu gwasanaethau a gweithgarwch monitro lleol a chenedlaethol gael eu hategu gan TGCh dda ar gyfer pob tîm GDC yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r GDC ddarparu data cywir am gyswllt â chleifion i Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ac efallai y bydd angen i fyrddau iechyd ddarparu cymorth penodol ar gyfer systemau TG fel rhan o'u gweithgarwch cynllunio TG cyffredinol er mwyn sicrhau y caiff data eu casglu yn gywir ac yn amserol.

### **Data Cofnodi Gweithgarwch**

Mae'r data cofnodi gweithgarwch ar gyfer gwasanaethau deintyddol â chyflog yng Nghymru wedi cael eu casglu drwy'r CDSWR. Ers mis Ebrill 2019, mae'r system hon wedi'i disodli gan y system casglu data deintyddol sy'n cael ei chynnal a'i gweithredu gan Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG ar ran Llywodraeth Cymru a'r byrddau iechyd. Mae'r system hon yn casglu data ar-lein drwy'r ffurflenni FP17W a FP17OW.

Cyflwynir adroddiadau ar wahân ynghylch data epidemioleg a gesglir ac mae data ar ofal a ddarperir dan anesthetig cyffredinol yn cael eu coladu gan Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru.

### **Ffioedd deintyddol yn y GDC**

Gweler Atodiad 1.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cylchlythyr hwn at:

Colette Bridgman, Y Prif Swyddog Deintyddol

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: [Colette.bridgman@llyw.cymru](mailto:Colette.bridgman@llyw.cymru)

## **Ffioedd Deintyddol yn y Gwasanaeth Deintyddol Cymunedol**

Mae ffioedd deintyddol y GIG yn gymwys i'r GDC yn unol â Rheoliadau'r GIG (Ffioedd Deintyddol) (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd) ("Ffioedd Taliadau Deintyddol 2006"). Cydnabyddir y gall byrddau iechyd benderfynu peidio â chodi ffioedd yn rhan o'u polisiau lleol, e.e. ar sail gallu. Nid ydym yn disgwyl i ffioedd gael eu codi mewn perthynas â phobl sy'n agored i niwed a welir ar ôl cael eu hatgyfeirio at y GDC.

Bydd cleifion nad ydynt fel arall wedi'u heithrio rhag talu ffioedd yn atebol i dalu ffioedd safonol y GIG. Yr uchafswm ffi a godir ar gleifion fydd y ffioedd presennol a nodir yn Rheoliadau Ffioedd Deintyddol 2006. Ni ddylid disgwyl i gleifion dalu mwy (na llai) am driniaeth yn y GDC nag y byddent yn ei dalu yn y gwasanaeth deintyddol cyffredinol a'r gwasanaeth deintyddol personol. Mae Rheoliad 11 o Reoliadau Ffioedd Deintyddol 2006 yn gymwys i ddannedd doddi newydd a chyflenwi cyfarpar orthodontig newydd yn lle rhai a gollwyd.

Os yw'r GDC yn darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol (fel gwasanaeth deintyddol personol) mae'n rhaid iddo weithredu yn unol â Rheoliadau Ffioedd Deintyddol 2006 a bydd ffioedd yn cael eu codi.